Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cynlluniau Pensiwn

Hydref 2025

## 1. Cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Cynlluniau Pensiwn ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Mehefin 2025. Cafodd y Bil ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Mehefin 2025 a'i ail ddarlleniad ar 7 Gorffennaf 2025. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn noddi'r Bil.

**2.** Mae enw hir y Bil yn nodi ei ddiben, sef:

> *"Make provision about pension schemes; and for connected purposes."*[1]

**3.** Mae Rheol Sefydlog 29.1 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fo Bil y DU yn gwneud darpariaeth "mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig."[2]

**4.** Gosododd Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 26 Mehefin 2025 ("y Memorandwm").[3]

**5.** Ar 1 Gorffennaf 2025, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ("y Pwyllgor") a'r Pwyllgor Deddfwriaeth,

[1] Senedd y DU, y Bil Cynlluniau Pensiwn
[2] Senedd Cymru, Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Ionawr 2025
[3] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cynlluniau Pensiwn.

Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i'w ystyried, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 3 Hydref 2025.[4]

## 2. Y Memorandwm

**6.** Yn gyffredinol, mae'r Bil yn anelu at gryfhau buddsoddiadau mewn pensiynau drwy ganlyniadau gwell a mwy o werth mewn cynlluniau pensiwn sector preifat, gan gynyddu'r swm sydd ar gael i aelodau cynlluniau o'r fath. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cydgrynhoi yn y farchnad bensiynau ac yn canolbwyntio ar werth a chanlyniadau i aelodau, ac yn galluogi cynlluniau pensiwn i fuddsoddi mewn ystod ehangach o asedau.

**7.** Mae'r darpariaethau perthnasol at ddiben y Memorandwm hwn wedi'u cynnwys ym Mhennod 1 o Ran 1 y Bil, a fydd yn galluogi diwygiadau i reoli buddsoddiadau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (“CPLlL”) yng Nghymru a Lloegr. Nod y diwygiadau hyn yw sicrhau bod rheoli buddsoddiadau CPLlL yn darparu manteision llawn graddfa, gan gynnwys mwy o arbenigedd, gwell gwerth am arian a gwell gwydnwch.

**8.** Bwriad y polisi yw i reoliadau'r cynllun amlinellu’r rhaniad mewn cyfrifoldeb rhwng yr awdurdodau gweinyddu a'r cwmnïau cronfa asedau, fel y bydd awdurdodau gweinyddu yn parhau i fod yn gyfrifol am bennu strategaeth fuddsoddi ar gyfer eu cronfa, a bydd y cwmnïau cronfa asedau yn gyfrifol am weithredu'r strategaeth fuddsoddi honno.

**9.** Mae’r Memorandwm yn nodi bod Llywodraeth Cymru o’r farn y bydd angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 1, 2, 4 a 5 o’r Bil. Yn ôl y Memorandwm, mae Llywodraeth y DU yn cytuno â'r asesiad hwn.[5]

**10.** Nodir ym mharagraff 20 o’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol:

> *“Mae'r holl fesurau yn y Bil yn gymwys i Gymru ac yn ymwneud â phensiynau personol a phensiynau galwedigaethol, sy'n faterion a gedwir yn ôl”.*

Mae'r paragraff hwnnw yn dangos bod cydsyniad yn cael ei geisio oherwydd bod y cymalau hynny

[4] Llywodraeth Cymru, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cynlluniau Pensiwn, Gorffennaf 2025
[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cynlluniau Pensiwn

> *"yn addasu swyddogaethau sy'n arferadwy gan awdurdodau Cymreig datganoledig".*[6]

**11.** Caiff y CPLlL ei weinyddu'n lleol gan 86 o awdurdodau gweinyddu, y mae 8 ohonynt yn awdurdodau lleol yng Nghymru (sydd wedi ffurfio Partneriaeth Pensiynau Cymru ar y cyd). Mae'r mesurau ym Mhennod 1 o Ran 1 y Bil yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau a fyddai'n cael yr effaith o addasu swyddogaethau'r 8 awdurdod lleol hyn mewn perthynas â'r CPLlL.

## Y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

**12.** Ceisir cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau a ganlyn:

**13.** Mae **Cymal 1** yn caniatáu i reoliadau cynllun gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â defnyddio cwmnïau cronfa asedau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a chyfranogiad awdurdodau gweinyddu yn y cwmnïau hynny. Mae hefyd yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi cyfarwyddiadau a chanllawiau mewn perthynas â'r awdurdodau gweinyddu, a defnyddio cwmnïau cronfa asedau.

**14.** Mae **Cymal 2** yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau cynllun hynny wneud darpariaeth ynghylch rheoli asedau yn y CPLlL. Mae hyn yn cynnwys nodi priod rolau awdurdodau gweinyddu a chwmnïau cronfa asedau, a gweithredu strategaeth fuddsoddi ar gyfer cronfeydd ac asedau CPLlL. Bydd rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddu yng Nghymru gydweithredu â chyd-bwyllgorau corfforaethol, i nodi a datblygu cyfleoedd buddsoddi.

**15.** Mae **Cymal 4** yn darparu y gall rheoliadau cynllun wneud darpariaeth ynghylch adolygiadau llywodraethiant awdurdodau gweinyddu. Mae hyn, hefyd, yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canllawiau ynghylch adolygiadau o'r fath, a sut y gallant ymateb i adolygiad o'r fath.

**16.** Mae Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 ("Deddf 2013") yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ynghylch gweinyddu a rheoli unrhyw gronfeydd pensiwn, a'u dirwyn i ben. Mae **Cymal 5** yn diwygio Atodlen 3 o Ddeddf 2013 i egluro, yn achos y CPLlL, fod pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn cynnwys y pŵer i wneud rheoliadau ynghylch uno dau neu fwy o gronfeydd pensiwn y CPLlL.

---

[6] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cynlluniau Pensiwn, paragraff 20

**17.** Mae paragraff 19 o'r Memorandwm yn nodi'r hyn a ganlyn am y cymalau sy'n weddill o Bennod 1 o Ran 1 o'r Bil:

> *"nid yw cymalau 3, 6 a 7 yn gwneud darpariaethau sy'n rhoi, yn addasu nac yn dileu unrhyw rai o swyddogaethau'r awdurdodau gweinyddol, gan gynnwys yr wyth sydd yng Nghymru."*[7]

## Pwerau dirprwyedig

**18.** Mae paragraff 14 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi:

> *"Nid yw cymalau 1, 2, 4 a 5 o'r Bil ynddynt eu hunain yn rhoi, yn dileu nac yn addasu unrhyw rai o swyddogaethau'r awdurdodau gweinyddol ond maent yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol drwy Reoliadau Cynllun i addasu'r ffordd y mae'r cyrff hyn yn gweithredu mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol."*[8]

**19.** Nid oes unrhyw bwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru yn y Bil.

## Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru

**20.** Ym mharagraffau 21 a 22 o'r Memorandwm, dywed yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"21. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn bwll pensiwn sefydledig sydd wedi bod yn gweithio i ddod â manteision maint i drefniant cynllun pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru ers blynyddoedd lawer. Bydd deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth y DU yn galluogi parhau i ddatblygu pwll penodol i Gymru ac yn cryfhau'r manteision maint ymhellach, gan gynnwys mwy o arbenigedd, gwell gwerth am arian a gwell gwydnwch.*
>
> *22. Mae'r Bil hwn yn ymdrin â materion a gedwir yn ôl ond wrth wneud hynny mae'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol a fydd yn eu galluogi i addasu swyddogaethau Awdurdodau Datganoledig Cymru, felly mae'n gwneud darpariaeth mewn*

[7] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cynlluniau Pensiwn, paragraff 19
[8] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cynlluniau Pensiwn, paragraff 14

> *perthynas â materion datganoledig. Am y rheswm hwn, mae'r Bil hwn yn galluogi'r amcanion polisi i gael eu cyflawni yn y ffordd fwyaf effeithiol, ac mae er budd gorau Cymru i gymryd darpariaethau yn y Bil hwn".*[9]

**21.** Mae'r Memorandwm yn dangos bod Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r CPLlL drwy ysgrifennu at Weinidogion Cymru cyn yr ymgynghoriad i nodi eu cynigion, ac yn dilyn ymgynghoriad i gadarnhau'r bwriadau hynny.

## Goblygiadau ariannol

**22.** Ym mharagraff 23 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn honni:

> *"Bydd y goblygiadau ariannol i awdurdodau gweinyddol sy'n deillio o'r darpariaethau hyn i'w talu o'u Cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol".*[10]

## Barn Llywodraeth Cymru

**23.** Ym mharagraff 24 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn argymell y dylai Senedd Cymru roi ei chydsyniad:

> *"Yn fy marn i, mae'n briodol i'r darpariaethau yn y Bil hwn gan y DU addasu swyddogaethau Awdurdodau Cymreig Datganoledig. Mae hyn oherwydd eu bod yn creu pwerau a fydd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i addasu swyddogaethau Awdurdodau Cymreig Datganoledig dim ond mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol,. Bydd y pwerau hyn yn galluogi pwll pensiwn Cymru i barhau i ddatblygu ac i elwa ar y manteision maint, gan gynnwys mwy o arbenigedd a gwydnwch a gwell gwerth am arian. Felly, rwyf yn argymell y dylai'r Senedd gefnogi'r cynigion a rhoi ei chydsyniad."*[11]

[9] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cynlluniau Pensiwn, paragraffau 21-22
[10] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cynlluniau Pensiwn, paragraff 23
[11] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cynlluniau Pensiwn, paragraff 24

# 3. Ein barn ni

**24.** Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 17 Gorffennaf 2025.

**25.** Rydym yn argymell y dylai'r Senedd roi ei chydsyniad mewn perthynas â darpariaethau perthnasol y Bil Cynlluniau Pensiwn.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Senedd roi ei chydsyniad i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ddarpariaethau perthnasol y Bil Cynlluniau Pensiwn.